**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

29 Medi 2023

Annwyl Llyr,

Byddwch yn gwybod mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 11 Medi 2023, buom yn ystyried y Protocol sy'n diwygio'r Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd ("Protocol Palma"). Mae Protocol Palma yn diwygio cwmpas y Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd (y "Confensiwn") i gynnwys siarcod ac elasmobranciaid eraill sy'n gefnforol, pelagig, a hynod fudol ac a geir yng Nghefnfor yr Iwerydd. Mae hefyd yn gwneud newidiadau i weithdrefnau gwaith y Comisiwn Rhyngwladol dros Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd (y "Comisiwn").

Er bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl, gallai newidiadau a wnaed gan Brotocol Palma i'r Confensiwn effeithio ar faterion datganoledig, er enghraifft, pe bai'n ofynnol i lywodraethau datganoledig weithredu a chadw at argymhellion y Comisiwn mewn perthynas â materion datganoledig.

Yn ystod ein trafodaeth ar y cytundeb, cytunwyd i dynnu sylw eich Pwyllgor ato, er gwybodaeth. Rydym hefyd yn bwriadu ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am wybodaeth am:

- ei barn ar y Protocol;

- pa drefniadau mewnol sydd ar waith i fonitro, arsylwi a gweithredu argymhellion Comisiwn y Protocol mewn meysydd datganoledig;
- ei hasesiad i weld a fydd angen cymryd unrhyw gamau, gan gynnwys gwneud newidiadau, ar hyn o bryd i sicrhau bod Cymru'n cydymffurfio â'r diwygiadau a wnaed gan y Protocol mewn meysydd datganoledig.

Mae ein hadroddiad diweddaraf ar gael yma.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd